



Delyth Jewell AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau  
Rhyngwladol

[SeneddDiwylliant@senedd.cymru](mailto:SeneddDiwylliant@senedd.cymru)

15 Rhagfyr 2021

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd ynghylch effaith y Bil Amaethyddol arfaethedig ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Rydym yn cydnabod bod amaethyddiaeth Cymru yn ganolog i lawer o'n cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith. Ein nod yw creu sector amaethyddol cynaliadwy yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, mae angen newidiadau polisi os ydym am sicrhau bod ein sector ffermio yn ffyniannus ac yn gadarn yn y dyfodol.

Mae amaethyddiaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi'r Gymraeg i ffynnu yn ein cymunedau gwledig. Drwy gefnogi ffermwyr i reoli eu tir yn gynaliadwy, mae ein cynigion yn ceisio cydbwysu anghenion y genhedlaeth bresennol ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol, wrth hefyd gefnogi cadernid cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Bydd cymorth fferm yn y dyfodol yn gwobrwyo ffermwyr sy'n cymryd camau i ateb i heriau'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn wahanol i Gynllun y Taliad Sylfaenol presennol. Y newid sylfaenol yw y bydd lefel y taliad yn gysylltiedig â'r camau mae ffermwr gweithredol yn eu cymryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd cyfleoedd i bob math o fferm ledled Cymru gymryd camau sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Rydym yn deall bod hyn yn newid mawr yn y system cymorth amaethyddol ac, ochr yn ochr â'r effeithiau amgylcheddol cadarnhaol, mae'n bosibl y bydd effeithiau economaidd ar fusnesau fferm. Gall yr effeithiau posibl hyn gael effeithiau canlyniadol ar yr economi wledig ac yn eu tro ar y Gymraeg.

Er mwyn deall yr effaith hon yn llawn rydym yn cynnal amrediad o ddadansoddiadau economaidd ar ein cynigion, i ddeall yr effeithiau ar wahanol fathau o fferm. Bydd cam cyntaf y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2022. Bydd yr ymchwil hon yn llywio'r gwaith o ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig ac yn lliniaru effeithiau negyddol lle bo modd.

Yn ogystal â'r dadansoddi a amlinellir uchod, rydym wrthi'n cynllunio ymchwil ychwanegol i archwilio effeithiau ehangach y cynllun ar gymunedau gwledig ac unrhyw effeithiau ehangach ar y Gymraeg.

Os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau, rhaid i gynllun y dyfodol weithio i ffermwyr. Rydym newydd agor y broses gofrestru ar gyfer cam arall o gydlunio gyda'r diwydiant a fydd yn caniatáu i bob math o fferm, a ffermwr, helpu i lunio ein cynigion a sicrhau eu bod yn addas i'r diben.

Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn gweithio gyda'n holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, ar y cynigion yn y cynllun amlinellol rydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn yr haf.

Bydd y dadansoddiad economaidd a'r broses gydlunio'n bwydo i mewn i'r asesiadau effaith integredig terfynol, a fydd yn ystyried effaith ein cynigion ar draws y sector gwledig, gan gynnwys ar y Gymraeg a'n cymunedau Cymraeg eu hiaith. Caiff y rhain eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar gynigion terfynol y cynllun yn 2023.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**